# Graddio pysgod/cregynbysgod byw

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â graddio pysgod neu gregynbysgod byw fel rhan o hwsmonaeth arferol. Mae'n gofyn bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau rheoli safonol y safle.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn graddio pysgod/cregynbysgod byw.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
gwneud gwaith yn ddiogel yn unol â gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
2.
sefydlu cyfarpar ac ardaloedd graddio er mwyn graddio pysgod/cregynbysgod byw yn effeithiol yn unol â'r gofynion graddio
3. lle y bo'n briodol, sicrhau bod pysgod/cregynbysgod wedi cael eu cyflyru yn barod ar gyfer graddio
4. trafod pysgod/cregynbysgod wrth eu graddio mewn ffordd sydd yn lleihau straen ac yn cynnal iechyd a lles
5. cynnal a chadw cyfarpar graddio mewn cyflwr gweithredol trwy gydol y broses raddio
6. arsylwi ac adrodd ar berfformiad y weithred o raddio, gan sicrhau cydymffurfio â'r fanyleb
7. ailsefydlu pysgod mewn unedau cadw gan ddilyn y broses raddio, yn unol â'r gofynion graddio
8. arsylwi ac adrodd ar gyfraddau ymddygiad/marwolaethau pysgod/cregynbysgod sydd newydd gael eu hailstocio
9. glanhau a storio cyfarpar graddio pysgod ar ôl ei ddefnyddio
10. darparu gwybodaeth i gynnal cofnodion graddio yn unol â ***'r*** gofynion cyfreithiol a gofynion y safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sydd yn gysylltiedig â'r broses raddio
2.
cyfarpar graddio ar gyfer y pysgod/cregynbysgod i gael eu graddio
3. manteision ac anfanteision y dulliau graddio gwahanol
4. pwysigrwydd graddio cywir i reolaeth pysgod/cregynbysgod iach
5. effaith bosibl amodau amgylcheddol niweidiol ar y weithred raddio
6. pam y mae pysgod/cregynbysgod yn cael eu graddio fel rhan o raglenni hwsmonaeth
7. arwyddion sydd yn dangos straen neu anhwylder mewn pysgod/cregynbysgod wrth raddio
8. y ffordd y gall cyfarpar graddio niweidio pysgod/cregynbysgod, os nad yw mewn cyflwr gweithredol
9. gweithdrefnau'r safle ar gyfer cynnal hylendid a bioddiogelwch effeithiol wrth raddio pysgod/cregynbysgod byw
10. y cyfarpar â'r dulliau a ddefnyddir i raddio pysgod/cregynbysgod byw ar y safle
11. y ffordd y mae pysgod/cregynbysgod byw yn cael eu graddio yn ôl eu nodwedion gwahanol (manyleb, maint, ansawdd, cyflwr)
12. sut i ymdrin â **ffactorau** sydd yn gallu amharu ar y broses raddio o fewn terfynau eich awdurdod
13. y gofynion cyfreithiol a gofynion y safle ar gyfer cadw cofnodion graddio

## Cwmpas/Ystod

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn gwybod sut i ymdrin â'r **ffactorau** canlynol wrth raddio:

1. newidiadau mewn amodau amgylcheddol
2. cyfarpar yn camweithredu
3. materion iechyd a lles mewn pysgod/cregynbysgod

## Geirfa

**cyflyru -** e.e. symud bwyd, triniaethau

**unedau cadw** – cyfleusterau a ddefnyddir i gadw pysgod neu gregynbysgod mewn amgylchedd cynhyrchu wedi ei reoli e.e. cewyll, llociau, pyllau, tanciau, leiniau hir, rhedfeydd rasio, rhwydi llusern, hosanau/tiwbiau, bagiau, ac ati

Graddio pysgod/cregynbysgod byw

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu4 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | pysgod; gradd |